"Ewch, gan hynny, a gwnewch ddisgyblion o'r holl genhedloedd, gan eu bedyddio hwy yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân."
(Mathew 28:19)

Dyma gomisiwn mawr yr Arglwydd Iesu i'w apostolion ac i ninnau i wneud disgyblion trwy'r holl ddaear. Dyma'n sail a'n hawdurdod dros gyhoeddi'r Efengyl i bawb trwy'r byd.

Awdurdod mawr

Mae Iesu'n honni yn adnod 17 fod ganddo bob gallu, a'r hawl i weithredu'r pŵer yna. Mae'n debyg i'w honiad yn 11.27 lle mae'n dweud: **"Traddodwyd i mi bob peth gan fy Nhad."** Oes gwahaniaeth yn ei honiad ar ôl yr atgyfodiad? Onid oedd gan Iesu yn nyddiau ei gnawd awdurdod dros afiechyd, cythreuliaid, byd natur, pobl a marwolaeth hyd yn oed? Eto, fel welwn rhyw gyfyngu ar ehangder ei awdurdod. Dywedodd wrth bobl yn aml i beidio â dweud wrth neb am y wyrth oedd wedi digwydd iddynt. Cododd dri pherson o'r marw, a chodwyd rhai saint o'u beddi pan fu farw ar y groes.

Nawr mae'n honni mwy, sef yr hawl i weithredu grym di-ben-draw dros nef a daear; sofraniaeth byd-eang heb unrhyw gyfyngiadau a fydd yn cyrraedd ei phenllanw yn niwedd yr oes, pan fydd yn atgyfodi'r *holl* feirw ac yn barnu *pob* person.

Dyma mae wedi ei dderbyn gan y Tad fel Cyfryngwr atgyfodedig; dyma'r llawenydd oedd o flaen ei lygaid wrth iddo ddioddef; dyma'i wobr am ei waith gorffenedig a'r iawn a dalodd ar y groes.

Comisiwn mawr

Ar sail yr awdurdod sydd ganddo, mae'n anfon ei apostolion. Dywedodd wrth ei ddisgyblion ynghynt i beidio â mynd at y Cenhedloedd. Nid nad oedd hyn yn fwriad gan Dduw o'r cychwyn, ond y cynllun dwyfol oedd i'r Efengyl fynd o Jerwsalem. Trefn Duw yw: **"yr Iddewon yn gyntaf a hefyd y Groegiaid"** (Rhuf. 1:16).

Doedd dim disgwyl i bawb ddod atyn nhw, ond roedd cyfrifoldeb arnynt i fynd allan. Mae Iesu wedi eu paratoi a'u trwytho ond nawr mae'n eu hanfon allan gyda phob cefnogaeth: **"Fel eryr yn cyffroi ei nyth ac yn hofran uwch ei gywion, lledai ei adenydd a'u cymryd ato, a'u cludo ar ei esgyll"** (Deut. 32:11).

Eu nod oedd gwneud disgyblion. Er fod hyn yn golygu disgwyl troedigaeth person, mae'n golygu mwy hefyd. Rhaid deall a derbyn y gwirionedd yng Nghrist,

rhaid credu ynddo ac aros ynddo. Rhaid bod parodrwydd i'w ddilyn ar unwaith, ble bynnag mae'n arwain.

Wrth wneud disgyblion, roedd gwaith deublyg gan yr apostolion:

Bedyddio

Mae bod yn barod am fedydd yn golygu profi edifeirwch a derbyn Gair Duw. Rhaid bedyddio i enw Duw; yn Dad, Mab ac Ysbryd Glân. Sylwer mai un 'enw' yw hwn. Mae bedyddio i'r enw hwn yn dweud wrthym bod y bedydd yn symbol o gymod a pherthynas newydd rhwng Duw a dyn trwy Iesu Grist.

Dysgu

Roedd Iesu'n disgwyl i'w apostolion ddysgu holl orchmynion Crist i'w bobl. Golygai hyn ei sgyrsiau, ei ddamhegion, ei broffwydoliaethau a'i addewidion hyfryd. Golygai adrodd a chyflwyno'i ddywediadau gwerthfawr a'i anogaethau unigryw. Roedd wedi dysgu ynglŷn â chodi'r groes a charu gelyn. Roedd wedi rhybuddio ynglŷn ag adnabod gau-broffwydi a rhagrithwyr. Roedd hanes ei fywyd a'i weinidogaeth yn llawn dysgeidiaeth bwysig i Eglwys y dyfodol.

Addewid mawr

Yna mae'r Bugail mawr yn cysuro ac yn cadarnhau ei braidd bychan trwy addo bod gyda nhw tan y diwedd. Nid addewid wag mo hon chwaith, ond ffaith a gwirionedd safadwy.

Dywedodd Jehofa, sef 'Ydwyf,' y byddai gyda Moses wrth iddo wynebu Pharo. Nawr mae Iesu'n dweud 'yr wyf fi' nid 'fe fyddaf fi' i ddangos ei bresenoldeb parhaus trwy ei Ysbryd gyda'r apostolion.

Mae'n addo bod gyda nhw ac nid yn eu herbyn. Pan wynebodd Iesu Saul ar y ffordd i Ddamascus dywedodd; **"Pam yr wyt yn fy erlid i?"** (Act. 9:4). Erlid y saint oedd Saul, ond roedd Iesu yn ei uniaethu ei hun yn llwyr gyda'i Eglwys am ei fod gyda hi bob amser.

Mae'r thema o bresenoldeb cysurlon Crist gyda ni wedi dod ar ddechrau, canol a diwedd efengyl Mathew:

"Wele, bydd y wyryf yn beichiogi, ac yn esgor ar fab, a gelwir ef Immanuel, hynny yw, o'i gyfieithu, 'Y mae Duw gyda ni". (1.23)

"Oherwydd lle y mae dau neu dri wedi dod ynghyd yn fy enw i, yr wyf yno yn eu canol" (18.20).

"Ac yn awr, yr wyf fi gyda chwi yn wastad hyd ddiwedd amser" (28.20).

Mae'n comisiwn i efengyleiddio'r byd yn seiliedig ar awdurdod Brenin brenhinoedd, gyda'r addewid o bresenoldeb yr Arglwydd gyda ni tan ddiwedd yr oes. Weithiau, mae'n anodd ei weld, ond, fel yr haul mewn niwl neu hindda, mae yno o hyd.